*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar Dydd Llun, 17eg Gorffennaf, 2023 am 1.00 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 12)**

3. **RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn 2023-2024 y Cyngor.

**(Tudalennau 13 - 34)**

4. **RHAG-GRAFFU: ADRODDIAD ESTYN AR WASANAETHAU ADDYSG CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi trosolwg o broses arolygu Estyn ac sy'n rhannu deilliannau'r arolwg o wasanaethau addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023, yn dilyn gwaith rhag-graffu gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant.

**(Tudalennau 35 - 78)**

5. **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau am ddyletswyddau statudol y Cyngor i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG); rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gyfansoddiad CYSAG Rhondda Cynon Taf a rhoi gwybod i Aelodau bod Adroddiad Blynyddol CYSAG RhCT ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022 bellach ar gael.

**(Tudalennau 79 - 102)**

6. **ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 31 MAWRTH 2023 (CHWARTER 4)**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

**(Tudalennau 103 - 150)**

7. **ADRODDIAD SY'N TRAFOD CYCHWYN YMGYNGHORIAD STATUDOL FFURFIOL MEWN PERTHYNAS AG ADOLYGIAD YR AWDURDOD O'R STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran adolygu'r Strategaeth Leol Ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynllun Gweithredu (Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn flaenorol), fel sy'n ofynnol dan Adran 10 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (FWMA) 2010.

**(Tudalennau 151 - 686)**

**8. ADNEWYDDU AC AILDDATBLYGU ADEILADAU ROCK GROUNDS, ABERDÂR**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhannu manylion cynnig i newid adeiladau Rock Grounds, Aberdâr, i greu gwesty o safon gyda bwyty, bar a sba; ac sy'n ceisio caniatâd i ddechrau'r broses gaffael ffurfiol ar gyfer partner datblygu a fydd yn gallu cyflawni cynllun o'r fath.

**(Tudalennau 687 - 710)**

**9. CRONFA BWLCH HYFYWEDD TAI PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n ceisio caniatâd y Cabinet i fwrw ymlaen â'r broses o dynnu cyllid gwerth £8miliwn sydd ar gael yn rhan o Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer Hen Lofa Cwm Coking.

**(Tudalennau 711 - 718)**

**10. CWMNI CYNON VALLEY DISPOSAL COMPANY LIMITED A CHWMNI AMGEN RHONDDA LIMITED – SWYDD CYFARWYDDWR SWYDDOG Y CYNGOR**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â newid un o swyddogion y Cyngor sy'n Gyfarwyddwr ar Gwmni Amgen Rhondda Limited a Chwmni Cynon Valley Waste Disposal Company Limited (y 'Cwmnïau') o ganlyniad i'r ffaith y bydd Mr Roger Waters, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, yn ymddeol cyn bo hir, yn ogystal â dileu'r swydd o strwythur reoli'r Cyngor.

**(Tudalennau 719 - 722)**

**11. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

__**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**__

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Roger Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu